Menter Iaith Sir Ddinbych



Adroddiad Blynyddol
Menter Iaith Sir Ddinbych
Annual Report

2025 - 2026

TRUSTED CHARITY STANDARD LEVEL 1 NCVO

SAFON ELUSEN DDIBYNADWY LEFEL 1 NCVO

www.misirddinbych.cymru

elusen gofrestredig / registered charity: 1120223
cwmni cyfyngedig trwy warant / company limited by guarantee: 6204415

Cynnwys
Content

02 Pwy ydyn ni a Gair gan y Cadeirydd?
Get to know us and Welcome from the Chair

04 Strwythur y Fenter a'r Staff
Menter Iaith Structure & Staff

06 Cyd-destun ein gwaith
Our work context

07 Ariannu
Finances

8 Ein sir
Our county

10 Ein Blaenoriaethau, Ein Hamcanion
Our Priorities, Our Objectives

12 Partneriaethau
Partners

14 Partneriaethau
Partners

16 Digwyddiadau Cymunedol
Community Events

18 Digwyddiadau Cymunedol
Community Events

20 Teuluoedd
Families

22 Teuluoedd
Families

24 Plant a Phobl Ifanc
Children and Young People

26 Plant a Phobl Ifanc
Children and Young People

28 Cyfathrebu a Gwirfoddolwyr
Communications and Volunteers

30 Ar y gweill, Cysylltu â ni a Diolch
Coming up, Contact us & Diolch

Pwy ydyn ni?

1998 - Menter Iaith Dinbych - Conwy
2003 - sefydlu Menter Iaith Sir Ddinbych
2004 - cofrestru'r Fenter fel elusen gofrestredig
2007 - cofrestru fel cwmni cyfyngedig trwy warant

13 aelod ar Fwrdd Cyfarwyddwyr y Fenter
3 aelod o staff
2 aelod o staff prosiect (rhan amser)
2 aelod o staff achlysurol
cefnogaeth llu o wirfoddolwyr a charedigion



Get to know us

1998 – Menter Iaith Dinbych - Conwy
2003 – Menter Iaith Sir Ddinbych established
2004 – register as a registered charity
2007 – register as a company limited by guarantee

13 members on Menter Iaith's Board of Directors
3 staff members
2 project staff (part-time)
2 casual staff members
support from many volunteers and Welsh language supporters

Croeso i'n hadroddiad blynyddol. Dyma gyfle i ni edrych nôl ar waith y flwyddyn a diolch i'r criw gweithgar o staff, aelodau o'r Bwrdd, gwirfoddolwyr a charedigion y Gymraeg am eu gwaith. Mae'r tîm yn cyflawni cymaint, diolch i chi!

Rydym yn parhau yn ein nod o hyrwyddo'r Gymraeg yn sir Ddinbych, hybu defnydd o'r iaith a chydweithio i gyrraedd nod cenedlaethol Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'n nod uchelgeisiol, ond yn un rydym yn parhau i weithio tuag ati yma yn sir Ddinbych.

Welcome to our annual report. This is an opportunity for us to look back at the year's work and to thank the hardworking team of staff, Board members, volunteers and Welsh language supporters for their efforts. This team achieves so much – diolch yn fawr iawn i chi!

We continue in our aim of promoting the Welsh language in Denbighshire, encouraging its use and working together to reach the Welsh Government's national goal of securing a million Welsh speakers by 2050.

Gair gan y Cadeirydd

Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur wrth i ni sefydlu yn ein cartref newydd yn 'Y Farchnad Fenyn' yng nghanol tref farchnad Dinbych. Mae trigolion y sir, bellach, yn ymwybodol o'n lleoliad ac yn galw heibio neu'n cysylltu â ni.

Diolch i'n partneriaid, yr hen a'r newydd, am barhau i gydweithio gyda ni yn y nod o ehangu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae prosiectau difyr a gweithgareddau pwrpasol wedi dwyn ffrwyth yn ystod y flwyddyn ac mae mwy i ddod. Cewch hanesion penodol o fewn cloriau'r Adroddiad hwn.

Bu newid i'n personél dros y flwyddyn, wrth i ni groesawu aelod newydd i'r tîm wedi cyfnod o chwe mis heb Swyddog Datblygu Cymunedol.

Dwi'n ddiolchgar am y fraint a'r anrhydedd o fod yn rhan o'r mudiad gweithgar hwn, ymlaen â ni gyda'r gwaith.

Bethan Cartwright
Cadeirydd
Menter Iaith Sir Ddinbych



Bethan Cartwright

Cadeirydd y Fenter sy'n dod â phrofiad helaeth i'r Bwrdd o'i gyrfa yn y byd addysg

Menter Iaith Chair who brings a wealth of experience to the Board as an educational sector expert

Welcome from the Chair

It has been a busy year as we established ourselves in our new home at 'The Butter Market' in the heart of Denbigh's market town. Residents and partners across Denbighshire are now aware of our location and can call in or contact us.

Thank you to our partners, the old and new, for continuing to work with us in our aim of expanding the use of the Welsh language. Interesting projects and purposeful activities have come to fruition during the year and there is more to come. You will find specific stories within this Annual Report.

There was a change in our personnel during the year, as we welcomed a new member to the team after a period of six months without a Development Officer.

I am grateful for the privilege and honoured to be part of this active organisation – let's look forward with vigour on our important journey.

Bethan Cartwright
Chair
Menter Iaith Sir Ddinbych

Strwythur y Fenter 2025-2026

Menter Iaith Structure

Ein Cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr



Bethan Cartwright
Cadeirydd
Chair
9 mlynedd



Gwenan Prysor
Is-Gadeirydd
Vice-Chair
11 mlynedd



Owain Gwyn Morris
Trysorydd
Treasurer
15 blynedd



Llŷr Williams
Ysgrifennydd
Secretariat
2 flynedd



Arwel Roberts
Cyfarwyddwr
Director
12 mlynedd



Menna Jones
Cyfarwyddwr
Director
7 mlynedd

Our Directors and Trustees



Catrin Williams
Cyfarwyddwr
Director
5 mlynedd



Lowri Ellis
Cyfarwyddwr
Director
5 mlynedd



Dyfan Philips
Cyfarwyddwr
Director
3 mlynedd



Manon Rees O'Brien
Cyfarwyddwr
Director
2 flynedd



Eifion Williams
Cyfarwyddwr
Director
2 flynedd



Emrys Wynne
Cyfarwyddwr
Director
14 mlynedd



Dyfrig Roberts
Cyfarwyddwr
Director
6 mis

Is-bwyllgor staffio
Staff sub committee

2 x Cyfarwyddwr
2 x Directors

Prif Swyddog
Chief officer

Pwyllgor Apêl Staff
Staff Appeal Committee

Cadeirydd
Chair

2 x Gyfarwyddwr
2 x Directors

STAFF
Cyflogedig



Ruth Williams
Prif Swyddog
Chief officer



Iorwen Jones
Swyddog Cyllid a Busnes y Fenter
Business & Finance Officer
4 diwrnod | 4 days



Gwenno Williams
Swyddog Cefnogi (achlysurol)
Support Officer (casual)



Mared Morris
Swyddog Cefnogi (achlysurol)
Support Officer (casual)

STAFF
Salaried



Erin Aled
Swyddog Datblygu Cymunedol
Community Development Officer
Llawn amser ers Hydref 2025 |
Full time since October 2025



Eryl Prys Jones
Swyddog Prosiect Ardal y Glannau
Coastal Project Officer
Rhan amser, cyflogir trwy gytundeb gyda Menter Iaith Conwy
Part time, employed in partnership with Menter Iaith Conwy



Nia Evans
Swyddog Prosiect Hiraethog
Project Officer
Rhan amser, cyflogir trwy gytundeb gyda Menter Iaith Conwy
Part time, in partnership with Menter Iaith Conwy

Is-bwyllgor Cyllid ac Adnoddau
Finance and Resources sub committee

Trysorydd
Treasurer

Cyfarwyddwr
Director

Prif Swyddog
Chief officer

Swyddog Cyllid
Finance Officer

Cyd-destun ein gwaith

- Mae Menter Iaith Sir Ddinbych yn un o 22 Menter Iaith sy'n rhwydwaith yn gweithio trwy Gymru gyfan.
- Yn genedlaethol, rydym yn cefnogi dros 160,000 o blant, ieuenctid ac oedolion bob blwyddyn i gynyddu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg.
- Dyma ffenest siop ar gyfer y Gymraeg sy'n galluogi bobl i fyw, dysgu a mwynhau'r Gymraeg o fewn eu cymunedau.
- Mae'n darpariaeth ni'n canolbwyntio ar Sir Ddinbych, ond wrth gwrs, trwy gydweithio â swyddogion drwy'r rhwydwaith o fentrau iaith, rydym yn rhannu arfer da, enghreifftiau o lwyddiant a dylanwadu ar gynllunio ieithyddol.



- Mae'r arian gan Llywodraeth Cymru yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar dri phrif faes a rheini'n deillio o Thema 2 (Defnydd o'r Gymraeg) a rhaglen waith Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg
  - Plant a Phobl Ifanc
  - Teuluoedd
  - Y Gymuned



Our work context

- Menter Iaith Sir Ddinbych is one of a network of 22 Menter Iaith working throughout Wales.
- Nationally, we support over 160,000 children, youth and adults every year to increase and strengthen the use of the Welsh language.
- It is a shop window for everything Welsh to help people live, learn and enjoy the Welsh language within their communities.
- Our provision focuses on Denbighshire, but of course, by collaborating with officers through the network of language initiatives, we share good practice, successful examples and influence linguistic planning.
- The funding from the Welsh Government ensures that we focus on three main areas which derive from Theme 2 (Increasing the Use of Welsh) and the Cymraeg 2050 work programme: A Million Welsh Speakers
  - Children and Young People
  - Families
  - The Community



Ariannu / Finances

Mae'r sefyllfa ariannol eleni yn iach sy'n dangos bod llywodraethiant cadarn a chyfrifol yn parhau yn y Fenter.
Daeth newydd da yn ystod y flwyddyn, o glywed bod cynnydd yng Ngrant Llywodraeth Cymru, ein prif ffynhonnell ariannol o £81,583 i £100,000 y flwyddyn, cynnydd o £18,417 (22.6%) ers 24/25. Rhaid cofio, fodd bynnag, na fu cynnydd yn y grant craidd ers dros 10 mlynedd, felly mae'n newyddion calonogol.
Fel trosolwg ehangach, ar ddiwedd 31 Mawrth 2026 mae'r arian dderbyniwyd wedi codi o £143,482 i £149,477, cynnydd o £5,955 ers llynedd (4.2%). Cafwyd gwarged o £10,565 am y flwyddyn o'i chymharu â £1,548 am y flwyddyn flaenorol.

Incwm		Income
Rhoddion a grantiau craidd tuag at gynnal y sefydliad a chreu cyfleoedd i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg	£115,365	Donations and core grants towards maintaining the organisation and creating opportunities for residents to use the Welsh language
Grantiau a rhoddion er mwyn cynnal gweithgareddau i blant, bobl ifanc, oedolion a dysgwyr Cymraeg	£17,866	Grants and donations in order to carry out activities for children, young people, adults and Welsh learners
Incwm trwy werthiant, e.e. tocynnau a gweithgareddau gwyliau i blant	£7,377	Income through sales, e.g. tickets and holiday activities for children
Incwm arall	£8,869	Other income
Cyfanswm incwm	**£149,477**	**Total income**

Gwariant		Expenditure
Gwariant ar weithgareddau'r Fenter	£138,912	Expenditure on activities supplied by Menter Iaith
Incwm / Gwariant Net	£10,565	Income / Net Expenditure
Cyfanswm cronfeydd 31.3.26	**£65,929**	**Total funds 31.3.26**

The financial situation this year is healthy evidence that sound and responsible governance continues within Menter Iaith.
Good news came during the year, hearing that there was an increase in the Welsh Government Grant, our main financial source from £81,583 to £100,000 per year, an increase of £18,417 (22.6%) since 24/25. It should be noted, however, that there has not been an increase in our core grant for over 10 years, so this is encouraging news.
As a wider overview, at the end of 31 March 2026 the money received has risen from £143,482 to £149,477, an increase of £5,955 since last year (4.2%). There was a surplus of £10,565 for the year compared to £1,548 for the previous year.

Ein sir

Gyda thros 93,000 o bobl dros dair oed yn byw yn Sir Ddinbych, mae:

- 23% ohonynt yn gallu'r Gymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021.
- 25% oedd yn gallu'r Gymraeg yn Nghyfrifiad 2011.
- Gostyngiad felly o 1300 o siaradwyr ond pwysig yw nodi bod cynnydd yng nghyfanswm y boblogaeth yn yr un cyfnod.

Mae 50% o boblogaeth y sir yn byw ym Mhrestatyn a'r Rhyl. 14% sy'n gallu'r Gymraeg yn y trefi arfordirol yma.
Yn ne orllewin Dyffryn Clwyd ac Edeirnion, mae dros 40% yn gallu siarad Cymraeg. Mae pum cymuned yno gyda thros 50% yn gallu'r Gymraeg, a Chynwyd yw'r gymuned Cymreiciaf, gyda bron i 60% o'r boblogaeth yn gallu siarad yr iaith.

Y ddwy brif dref yn Nyffryn Clwyd yw Dinbych a Rhuthun. Mae 33% yn siarad yr iaith yn Ninbych a 38% yn siarad y Gymraeg yn Rhuthun. Ond mae'n bwysig nodi'r amrywiaeth o fewn cymdogaethau'r trefi marchnad, sy'n rhoi heriau a chyfleoedd wrth gynllunio rhaglenni gwaith. Er enghraifft, yn Ninbych Uchaf mae ardaloedd sydd â 15% o siaradwyr Cymraeg tra bod rhai cymdogaethau yn Ninbych Isaf cymaint â 52%

Yn ne ddwyrain y sir, mae tua 20% yn gallu'r Gymraeg, cymunedau fel Llangollen, Llantysilio, Llandegla a Llanarmon yn Iâl.

Dyna felly gynnig trosolwg ieithyddol o'r sir.

Our county

With over 93,000 people over the age of three living in Denbighshire


- 23% of them report being able to speak Welsh according to the 2021 census.
- 25% said they were able to speak Welsh in the 2011 census.
- This is 1,300 less speakers compared to the 2011 census, but it's important to note that the overall population has grown during that time.

Half of the county's population lives in Prestatyn and Rhyl. 14% speak Welsh in these coastal towns.
In the south western part of Vale of Clwyd and Edeirnion, over 40% speak Welsh. There are five communities in this area where over 50% speak Welsh, with Cynwyd being the most Welsh-speaking area at nearly 60%.

The two main towns in the Vale of Clwyd are Denbigh and Ruthin. In Denbigh, 33% speak Welsh whilst in Ruthin it reaches 38%. However, there is significant variation between neighbourhoods within these market towns, posing both challenges and opportunities when planning work programmes. For example, in Upper Denbigh only 15% speak Welsh, whereas some neighbourhoods in Lower Denbigh reach 52%.

In the south east of the county, around 20% can speak Welsh in communities such as Llangollen, Llantysilio, Llandegla, and Llanarmon-yn-Iâl.

This provides a linguistic overview of the county.



Ein Blaenoriaethau

Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd Sir Ddinbych.

Sicrhau fod cyfleoedd ac anogaeth ar gael i fewnfudwyr a thrigolion di-Gymraeg i ddysgu'r iaith.

Sicrhau fod cyfleoedd i drigolion cynhenid ddatblygu eu gwybodaeth a defnydd o'r iaith.

Dylanwadu ar yr ystod eang o weithgarwch cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, addysgiadol sy'n digwydd o fewn y sir er mwyn datblygu i fod yn drwyadl ddwyieithog neu Gymraeg.

Ein Hamcanion

Cynorthwyo'r sector wirfoddol i gynnig gwasanaeth dwyieithog.

Annog y di-Gymraeg i fabwysiadu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith e.e. cymhathu mewnfudwyr a chynorthwyo'r dysgwyr i ddod yn rhugl ac i ddod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg.

Cynnal digwyddiadau newydd unai'n annibynnol neu thrwy gydweithio mewn partneriaethau

• i bontio rhwng ysgol a chymdeithas.

• i ategu at waith darpariaeth Cymraeg i oedolion.

• i gyfoethogi bywyd Cymraeg yn gyffredinol.

Cefnogi gweithgareddau gwirfoddol sy'n bodoli eisoes yn y Gymraeg.

Annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg a threfnu gweithgareddau ar eu cyfer.

Hyrwyddo trosglwyddiad o'r Gymraeg o fewn y teulu.

Our Priorities

To normalise using the Welsh language in every aspect of life in Denbighshire.

To ensure that there are opportunities and encouragement for incomers and non-Welsh speaking residents to learn the language.

To ensure that there are opportunities for native residents to develop their knowledge and use of the language.

To influence the wide range of social, economic, cultural, and educational activity within the county so that it develops to become thoroughly bilingual or Welsh.

Our Objectives

To assist the voluntary sector to offer a bilingual service.

To encourage non-Welsh speakers to adopt a positive attitude toward the language, for example by assimilating immigrant communities and helping learners to become fluent speakers and a part of the Welsh speaking community.

To hold new events either independently or by working in partnership with others

• to bridge the gap between schools and the community.

• to support the work of the Welsh for Adults provision.

• to enrich and enliven life through the medium of Welsh in general.

To support existing voluntary activities in Welsh.

To encourage children and young people to use Welsh and to organise events for them.

To promote the transmission of the Welsh language within families.

Beth rydym wedi ei gyflawni?

Adeiladu Rhwydweithiau Cryf

Mae cydweithio wedi bod wrth wraidd ein gwaith drwy gydol y flwyddyn. Buom yn gweithio'n agos gyda Popeth Cymraeg i gynnal sesiynau Paned a Sgwrs yn Rhuthun a Dinbych, gan hefyd hyrwyddo cyfleoedd i ddysgwyr ar draws y sir. Roedd ymweliadau arbennig megis y sesiwn yn Nolbelydr yn rhoi profiadau unigryw i ddysgwyr Cymraeg a phlant ddefnyddio eu Cymraeg y tu allan i'r dosbarth.



Dod â sefydliadau ynghyd

Parhawyd i gydlynu Fforwm Iaith Sir Ddinbych, gan ddod â phartneriaid allweddol ynghyd yn rheolaidd i rannu syniadau a chydlynu gweithgareddau. Roedd cynrychiolwyr o sefydliadau megis Mudiad Meithrin, Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG), Urdd Gobaith Cymru, Merched y Wawr, Cyngor Sir Ddinbych, Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain, Popeth Cymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg ymhlith y rhai a gyfrannodd at gryfhau'r rhwydwaith Cymraeg lleol.



What have we achieved?

Building strong networks

Collaboration has been at the heart of our work throughout the year. We worked closely with Popeth Cymraeg to host 'Paned a Sgwrs' informal chat sessions in Ruthin and Denbigh, while also promoting opportunities for learners across the county. Special visits, such as the session at Dolbelydr, provided unique experiences for Welsh learners and children to use their language outside the classroom.

Bringing organisations together

We continued to co-ordinate the Denbighshire Language Forum bringing together key partners to share ideas and arrange activities. Representatives from organisations such as Mudiad Meithrin, RhAG (Parents for Welsh Medium Education), Urdd Gobaith Cymru, Merched y Wawr, Denbighshire County Council, Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain, Popeth Cymraeg, and the Welsh Language Commissioner were among those who contributed to strengthening the local Welsh-language network.

Partneriaethau

Partnerships

Cryfhau'r Mudiad Cenedlaethol

Yn ogystal â'n gwaith lleol, buom yn cyfrannu at waith ehangach rhwydwaith y Mentrau Iaith drwy Mentrau Iaith Cymru (MIC), gan gefnogi mentrau cenedlaethol fel Cwis Dim Clem a Diwrnod Shwmae Su'mae. Mae'r cydweithio hwn yn sicrhau bod Sir Ddinbych yn chwarae rhan weithredol mewn ymgyrchoedd sy'n codi proffil a defnydd y Gymraeg ledled Cymru.

Yn gyffredinol, bu'r flwyddyn yn dyst i werth partneriaethau cryf a'r effaith gadarnhaol y gall cydweithio ei chael ar gynyddu defnydd o'r Gymraeg, ehangu cyfleoedd i gymryd rhan, a chryfhau cymunedau ledled Sir Ddinbych.



Gweithgareddau i oedolion
114
Activities for adults







Strengthening nationally

In addition to our local work, we contributed to the wider work of the Mentrau Iaith network through Mentrau Iaith Cymru (MIC), supporting national initiatives such as Cwis Dim Clem and Diwrnod Shw mae Su'mae? This collaboration ensures that Denbighshire plays an active role in national campaigns that raise the profile and people's use of the Welsh language across Wales.

This past year demonstrates the value of strong partnerships and the positive impact that collaboration can have on increasing the use of Welsh, expanding opportunities for participation, and strengthening communities throughout Denbighshire.

Beth rydym wedi ei gyflawni?

Gweithio gyda Theuluoedd

Bu partneriaethau cryf gyda RhAG a Mudiad Meithrin yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i deuluoedd ymgysylltu â'r Gymraeg. Cydweithiwyd mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau, gan gynnwys sesiynau Stori a Chân Magi Ann yn ystod Gŵyl Ganol Haf Dinbych, Carnifal y Rhyl, dathliadau Ewro Merched Cymru a Ffair Wledig Pentrecelyn. Yn ogystal, buom yn helpu i hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg i Blant a Chlwb Cwtsh ledled y sir.









What have we achieved?

Working with families

Strong partnerships with RhAG and Mudiad Meithrin secured valuable opportunities for families to engage with the Welsh language. We collaborated on a variety of events, including *Stori a Chân* Magi Ann, story and song sessions during the Denbigh Midsummer Festival, Rhyl Carnival, the Wales Women's Euros celebrations, and the Pentrecelyn Country Fair. In addition, we helped promote Welsh-language activities for children and *Clwb Cwtsh* sessions across the county.

Cydweithio ar draws ffiniau

Partneriaethau

Partnerships

Mae'r berthynas agos gyda Menter Iaith Conwy a Menter Iaith Fflint a Wrecsam wedi parhau i gynhyrchu cyfleoedd newydd. Cydweithiwyd ar sesiynau Paned a Sgwrs yn Llyn Brenig, teithiau cerdded i ddysgwyr yn Loggerheads, a gweithdai creadigol megis Lego a Minecraft. Mae'r gwaith hwn wedi ein galluogi i gyrraedd mwy o bobl a rhannu adnoddau ac arbenigedd er budd cymunedau'r rhanbarth.

Dathlu llwyddiannau a chreu cyfleoedd newydd

Yn ystod y flwyddyn cafwyd gwahoddiadau i gymryd rhan mewn digwyddiadau arwyddocaol, gan gynnwys dathliadau 70 mlynedd Ysgol Glan Clwyd a Seremoni Gwobrwyo Dysgwyr Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Roedd rhain yn gyfleoedd gwerthfawr i ddathlu llwyddiannau'r Gymraeg, hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg ac adeiladu partneriaethau newydd ar gyfer y dyfodol.



Cross border collaboration

The close relationship we have with Menter Iaith Conwy and Menter Iaith Fflint a Wrecsam has continued to generate new opportunities. Collaborative efforts have included *Paned a Sgwrs* a cuppa and Welsh chat sessions at Llyn Brenig, walking tours for learners at Loggerheads, and creative workshops such as Lego and Minecraft. This work has enabled us to reach more people and share resources and expertise for the benefit of the region's communities.

Celebrating success and creating new opportunities

During the year, invitations were received to participate in significant events, including Ysgol Glan Clwyd's 70th-anniversary celebrations and the Betsi Cadwaladr Health Board Learner Awards Ceremony. These were valuable opportunities to celebrate successes, promote the benefits of Welsh-medium education, and build new partnerships for the future.

Beth rydym wedi ei gyflawni?

Cerddoriaeth Gymraeg yn denu cynulleidfaoedd newydd

Roedd cerddoriaeth fyw yn uchafbwynt amlwg drwy gydol y flwyddyn. Croesawyd artistiaid poblogaidd fel Lleuwen, Tew Tew Tennau, Bwncath ac eraill i gymunedau ledled Sir Ddinbych. Un o'r digwyddiadau mwyaf llwyddiannus oedd gig Gruff Rhys a Pys Melyn yn Henllan, a werthodd bron yn syth gyda 150 o bobl yn bresennol. Yn Nyserth, denodd gig Bwncath gynulleidfa o 135, sef digwyddiad mwyaf erioed Llais Prestatyn. Roedd yr holl ddigwyddiadau hyn yn dangos bod galw cryf am gerddoriaeth Gymraeg gyfoes ac yn helpu i gyflwyno'r Gymraeg i gynulleidfaoedd newydd.







What have we achieved?

Welsh language music attracts new audiences

Live music was a real highlight throughout the year. Popular artists such as Lleuwen, Tew Tew Tennau, Bwncath, and others were welcomed into communities across Denbighshire. One of the most successful events was the gig featuring Gruff Rhys and Pys Melyn in the village of Henllan, which sold out almost immediately, with 150 people in attendance.

In Dyserth, a Bwncath gig attracted an audience of 135 - the largest event ever held by Llais Prestatyn. All these activities demonstrates a strong demand for contemporary Welsh-language music and helps introduce the Welsh language to new audiences.

Digwyddiadau Cymunedol

Community events

Cefnogi Dysgwyr a Chreu Cymunedau Cymraeg

Parhaodd ein cyfres boblogaidd Paned a Sgwrs i fod yn gonglfaen i'n gwaith cymunedol yn ystod y flwyddyn. Diolch i ymroddiad gwirfoddolwyr a chefnogaeth Popeth Cymraeg, cynhaliwyd dros 80 sesiwn ar draws y sir mewn lleoliadau o Ddyserth i Gorwen. Mae cannoedd o ddysgwyr bellach ar ein cronfa ddata, gyda nifer sylweddol yn manteisio ar y cyfle i ymarfer eu Cymraeg yn rheolaidd mewn awyrgylch cyfeillgar a chefnogol. Cafodd dysgwyr hefyd gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau unigryw fel Dolbelydr, Loggerheads a Llangollen.

Llais Prestatyn yn mynd o nerth i nerth

Bu Llais Prestatyn yn brysur yn darparu rhaglen amrywiol o weithgareddau ar hyd yr arfordir. O deithiau Dro a Sgwrs ar hyd llwybrau arfordirol a safleoedd hanesyddol, i sesiynau gwerin, cwisiau poblogaidd a chyngherddau byw, mae'r pwyllgor gwirfoddol wedi creu cyfleoedd rheolaidd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Roedd y Cwis Santes Dwynwen yn llwyddiant arbennig, gyda 95 o bobl yn mynychu, tra denodd Sesiwn Werin Sbri gynulleidfa frwdfrydig a sbarduno diddordeb mewn datblygu mwy o ddigwyddiadau gwerin i'r dyfodol.



Supporting Learners and creating Welsh-speaking communities

Our popular 'Paned a Sgwrs' sessions continued to be a cornerstone of our community work with new learners throughout the year. Thanks to the dedication of volunteers and the support of Popeth Cymraeg, over 80 sessions were held across the county in locations ranging from Dyserth to Corwen. Hundreds of learners are now on our database, with a significant number taking the opportunity to practise their Welsh regularly in a friendly and supportive atmosphere. Learners also had the chance to use Welsh in unique locations such as Dolbelydr, Loggerheads, and Llangollen.



Llais Prestatyn goes from strength to strength

Llais Prestatyn has been busy providing a varied programme of events along our coastal area. From the 'Walk and Talk' excursions along coastal paths and historic sites to folk sessions, popular quizzes, and live concerts, the voluntary committee has created regular opportunities for people to use their Welsh skills socially. The Santes Dwynwen Day Quiz was a particular success, with 95 people in attendance, while the *Sbri* folk session attracted an enthusiastic audience and sparked interest in developing more folk music events for the future.

Beth rydym wedi ei gyflawni?

Y Celfyddydau'n dod â'r Gymraeg yn fyw

Roedd y celfyddydau yn rhan allweddol o'r rhaglen eleni. Dechreuodd y flwyddyn gyda gweithdy celf llwyddiannus yn Ninbych ar y cyd â'r artist Paul Eastwood, gan gynnig profiad creadigol i oedolion a dysgwyr Cymraeg fel ei gilydd. Ym maes y theatr, buom yn falch o gefnogi lansiad Gwen y Witch, drama newydd Mewn Cymeriad am Gwen ferch Ellis y wraig olaf i'w chrogi yng Nghymru, gyda pherfformiad arbennig yn Ninbych, y dref lle y'i chrogwyd. Yn ystod y flwyddyn hefyd, daeth cynyrchiadau gan Gwmni Theatr Bara Caws a mwy gan Mewn Cymeriad â chynulleidfaoedd mawr o oedolion a phobl ifanc i Theatr Elwy a Theatr Twm o'r Nant.







What have we achieved?

The arts bring the Welsh language to life

The arts played a key role in this year's programme. The year began with a successful art workshop in Denbigh led by artist Paul Eastwood, offering a creative experience to adults and Welsh learners alike. Within the theatre world, we were proud to support the launch of Gwen y Witch - a new play by *Mewn Cymeriad* the theatre company specialising in the portrayal of historical Welsh figures. Gwen ferch Ellis, the last woman to be hanged in Wales, misconceived to be a witch, was performed in Denbigh, where she was hanged. Throughout the year, productions by Cwmni Theatr Bara Caws and further shows by Mewn Cymeriad also attracted large audiences from adults to young people at Theatr Elwy, Llanelwy and Theatr Twm o'r Nant, Dinbych.

Digwyddiadau Cymunedol

Community Events

Partneriaethau sy'n gwneud gwahaniaeth

Drwy gydol y flwyddyn, bu cydweithio wrth galon ein llwyddiant. Gweithiwyd gyda chwmnïau theatr, cerddorion, grwpiau gwirfoddol, lleoliadau cymunedol, Cyngor Sir Ddinbych, Mentrau Iaith eraill a sefydliadau megis Noson Allan a Chanolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r partneriaethau hyn wedi ein galluogi i gyrraedd cymunedau newydd, cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau bod gweithgareddau Cymraeg o safon uchel ar gael ledled y sir.











Partnerships making a difference

Throughout the year, collaboration has been at the heart of our success. We have worked with theatre companies, musicians, voluntary groups, community venues, Denbighshire County Council, our fellow Mentrau Iaith partners, and organisations such as *Noson Allan* and the National Centre for Learning Welsh. These partnerships have enabled us to reach new communities, increase opportunities to use the language, and ensure that high-quality Welsh language activities are available across the county.

Beth rydym wedi ei gyflawni?

Dod â'r Gymraeg at galon bywyd teuluol

Bu'n flwyddyn hynod brysur a llwyddiannus i'n gwaith gyda theuluoedd ar draws Sir Ddinbych. Trwy gymysgedd o ddigwyddiadau cymunedol, sesiynau creadigol a phartneriaethau cryf, llwyddwyd i gyflwyno'r Gymraeg i gannoedd o blant a rhieni mewn ffordd naturiol, groesawgar a hwyliog. O neuaddau pentref a llyfrgelloedd i garnifalau a sioeau gwledig, roedd y Fenter yn bresennol lle'r oedd teuluoedd yn ymgynnull, gan greu cyfleoedd gwerthfawr i ymgysylltu â'r Gymraeg.



What have we achieved?

Bringing the language to the heart of family life

It has been an exceptionally busy and successful year for us working with families across Denbighshire. Through a mix of community events, creative sessions, and strong partnerships, we successfully introduced the Welsh language to hundreds of children and parents in a natural, welcoming, and enjoyable way. From village halls and libraries to carnivals and country shows, the Menter Iaith team was present wherever families gathered, creating valuable opportunities to engage and understand more about the Welsh language.



Teuluoedd

Families

Hud Magi Ann a gweithgareddau i'r teulu cyfan

Parhaodd ein cymeriad hynaws, Magi Ann, i fod yn adnodd gwerthfawr ar gyfer denu teuluoedd a phlant ifanc at y Gymraeg. Roedd sesiynau Stori a Chân yn ystod Gŵyl Ganol Haf Dinbych yn llawn canu, dawnsio a straeon, gan greu profiadau cadarnhaol a chofiadwy i blant a'u rhieni. Ymddangosodd Magi Ann mewn sawl digwyddiad arall yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys ffeiriau ysgolion, picnic teuluol a dathliadau cymunedol, gan helpu i wneud y Gymraeg yn rhywbeth byw, cyffrous a chofiadwy.



Cyrraedd teuluoedd newydd

Roedd digwyddiadau mawr fel Carnifal y Rhyl, Sioe Wledig Pentrecelyn a nifer o ddigwyddiadau cymunedol eraill yn gyfleoedd gwych i gyrraedd teuluoedd yn eu milltir sgwar. Trwy weithgareddau creadigol a sgyrsiau wyneb yn wyneb, llwyddwyd i godi ymwybyddiaeth o fanteision addysg cyfrwng Cymraeg a'r cyfleoedd sydd ar gael i rieni a phlant ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Yn aml, roedd y sgyrsiau hyn yn datgelu nad oedd rhai teuluoedd yn ymwybodol o'r holl opsiynau Cymraeg oedd ar gael iddynt.



The magic of Magi Ann and activities for the whole family

Our friendly character, Magi Ann, continued to be a valuable resource for attracting families and young children to the Welsh language. Our Welsh Story and Song sessions during Denbigh's Midsummer Festival were full of song, dance and storytelling, creating positive and memorable experiences for children and their parents. Magi Ann appeared at several other events throughout the year, including school fairs, a family picnic, and community celebrations, helping to make the Welsh language vibrant, exciting and memorable.

Reaching new families

Major events such as Rhyl Carnival, Pentrecelyn's Rural Show, and numerous other community events provided excellent opportunities to reach families in their localities. Through creative activities and face-to-face conversations, awareness was raised regarding the benefits of Welsh-medium education and the opportunities available for parents and children to use Welsh in their daily lives. These conversations often revealed that some families were unaware of the full range of Welsh-language options available to them.

Beth rydym wedi ei gyflawni?

Llwyddiant Prosiect Dwylo Bach

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd datblygiad prosiect Dwylo Bach yn Groes. Yn dilyn sesiwn flasu lwyddiannus, datblygodd y prosiect yn gyfres reolaidd o weithgareddau creadigol a synhwyraidd i deuluoedd ifanc. Bu cydweithio llwyddiannus gyda chronfa cymunedol, 'Gwaddol Rhydgaled' i ariannu'r digwyddiad er budd y Gymraeg. Dychwelodd nifer o deuluoedd yn fisol, tra ymunodd rhai ar hap ar gyfer un seiswn yn unig. Roedd llwyddiant y sesiynau synhwyraidd a chelfyddydol Gymreig gyda'r babanod yn dangos yn glir bod galw gan rieni am gyfleoedd Cymraeg anffurfiol i deuluoedd mewn cymunedau gwledig. Roedd yn enghraifft wych o sut y gall gwrando ar anghenion lleol arwain at ddarpariaeth lwyddiannus.



What have we achieved?

Gweithgareddau i deuluoedd
26
Family activities

Dwylo Bach project was a great success!

One of this year's highlights was introducing the *Dwylo Bach* project to the village of Groes. Following a successful taster session, the project evolved into a regular series of creative and sensory activities for young families. A successful collaboration with a community fund *Gwaddol Rhydgaled* secured financial support for the event, benefiting the Welsh language. Many families returned on a monthly basis, while others joined spontaneously for a single session. The success of these Welsh-language sensory and arts sessions for babies clearly demonstrated parent demand for informal Welsh language opportunities for families in rural communities. It was a fantastic example of how listening to local needs can lead to successful provision.

Teuluoedd
Families

Gweithio mewn Partneriaeth

Bu partneriaethau cryf gyda RhAG, Mudiad Meithrin, Dechrau'n Deg a gwasanaethau teuluol Cyngor Sir Ddinbych yn allweddol i lwyddiant ein gwaith gyda theuluoedd. Trwy gydweithio mewn digwyddiadau teuluol, dathliadau cymunedol ac ymgyrchoedd hyrwyddo, llwyddwyd i estyn allan at gynulleidfaoedd newydd a darparu negeseuon cyson am werth dwyieithrwydd a manteision y Gymraeg o oedran cynnar. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn ystod digwyddiadau dathlu Ewros Merched Cymru, lle defnyddiwyd chwaraeon a gweithgareddau teuluol fel ffordd o gyflwyno'r Gymraeg fel rhan naturiol o ddiwylliant a bywyd cyfoes Cymru.



Cefnogi Taith Addysgol Teuluoedd

Bu'r Fenter hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth helpu teuluoedd i ddeall manteision addysg cyfrwng Cymraeg. Trwy fod yn bresennol mewn nosweithiau agored ysgolion, ffeiriau a digwyddiadau gwybodaeth, cafwyd cyfle i siarad yn uniongyrchol â rhieni am ddwyieithrwydd, cyfleoedd addysgol a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Roedd y sgyrsiau hyn yn aml yn rhoi'r hyder i rieni ystyried neu gadarnhau'r dewis o addysg Gymraeg i'w plant.



Working in Partnership

Strong partnerships with *Rhieni dros Addysg Gymraeg*, Mudiad Meithrin, Dechrau'n Deg, and Denbighshire County Council's family services were key to the success of our work with families. Through collaboration at family events, community celebrations, and promotional campaigns, we successfully reached new audiences and conveyed consistent messages about the value of bilingualism and the benefits of the Welsh language from an early age. This was particularly evident during events celebrating the Wales Women's Euros, where sport and family activities were used to present Welsh as a natural part of contemporary Welsh culture and life.

Supporting Families' Educational Journey

Menter Iaith played an important role in helping families understand the benefits of Welsh-medium education. By attending school open evenings, fairs, and information events, there were opportunities to speak directly to parents about bilingualism, educational opportunities, and the support available to them. These conversations often gave parents the confidence to consider or confirm Welsh medium education for their children.

Beth rydym wedi ei gyflawni?

Meithrin talentau a chreadigrwydd

Bu'r flwyddyn yn llawn cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddatblygu sgiliau newydd, dysgu a magu hyder trwy'r Gymraeg. Un o'r uchafbwyntiau oedd lansio Bocsŵn, prosiect newydd a gyflwynodd bobl ifanc i fyd cerddoriaeth ac a arweiniodd at sefydlu grŵp wythnosol newydd. Yn ystod yr haf, cafodd darpar awduron hefyd gyfle i gymryd rhan mewn gweithdai ysgrifennu creadigol gyda Mali Elwy, gan ddatblygu eu creadigrwydd a'u hyder.

Haf llawn hwyl a dysgu

Drwy gydweithio gyda chlybiau gwyliau lleol, cynhaliwyd rhaglen amrywiol o weithgareddau a gyrhaeddodd dros 100 o blant. O sesiynau gyda Magi Ann, Seren a Sbarc i weithdai hanes a byd natur, dangoswyd bod defnyddio'r Gymraeg yn gallu digwydd yn naturiol trwy chwarae, dysgu a mwynhau.





Gweithgareddau plant a phobl ifanc
62
Children & young people activities

What have we achieved?

Nurturing Talent and Creativity

The year was full of opportunities for children and young people to develop new skills, learning and build confidence through the medium of Welsh. One of the highlights was the launch of Bocsŵn, a new project that introduced young people to the world of music and led to the establishment of a new weekly group. During the summer, aspiring writers also had the opportunity to take part in creative writing workshops with Mali Elwy, developing their creativity and confidence.

A summer full of fun and learning

By working with local holiday clubs, a varied programme of activities were delivered, reaching over 100 children. From sessions with our life sized characters, Magi Ann and Seren a Sbarc to history and nature workshops, it showed that using Welsh can happen naturally through play, learning and enjoyment.

Dod â hanes yn fyw

Plant a Phobl Ifanc

Children & Young People

Roedd treftadaeth Cymru yn thema bwysig drwy gydol y flwyddyn. Cafodd plant gyfle i ddysgu am Owain Glyndŵr trwy berfformiadau gan gwmni Mewn Cymeriad a gweithdai creadigol mewn ysgolion. Yn ogystal, cynahliwyd gweithdai Lego yn Nolbelydr, Trefnant ac yng Nglyndyfrdwy gan blethu hanes lleol a'r Gymraeg yn fyw mewn ffordd rhyngweithiol a hwyliog, gan ysbrydoli plant i ddysgu mwy am eu hardal a'u diwylliant.



Defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth

Roedd creu cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg yn flaenoriaeth bwysig i'r Fenter yn ystod y flwyddyn. Trwy glybiau amser cinio yn Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun ac Ysgol Dinas Brân, Llangollen, cafodd pobl ifanc gyfle i gymdeithasu, chwarae gemau a defnyddio'r Gymraeg gyda'u cyfoedion mewn awyrgylch anffurfiol.

Bringing history to life

Welsh heritage was an important theme throughout the year. Children enjoyed learning about Owain Glyndŵr through performances by *Mewn Cymeriad* and creative workshops in schools. In addition, Lego workshops were held at Dolbelydr, Trefnant, and Glyndyfrdwy, bringing local history and the Welsh language to life in a interactive and enjoyable sessions, whilst also inspiring the children to learn more about their local area and culture.



Using Welsh beyond the classroom

Creating social opportunities to use Welsh was an important priority for Menter Iaith Sir Ddinbych during the year. Through lunchtime clubs at Ysgol Brynhyfryd, Ruthin, and Ysgol Dinas Brân, Llangollen, young people had the opportunity to socialise, play games, and use Welsh with their peers in an informal atmosphere.

Beth rydym wedi ei gyflawni?

Diwylliant, cerddoriaeth a chystadlu

Bu'r flwyddyn yn llawn gweithgarwch creadigol a diwylliannol. O gystadleuaeth dylunio penglog Calan Gaeaf i weithdy cyfansoddi ar gyfer Dydd Miwsig Cymru, cafodd plant a phobl ifanc gyfleoedd i fynegi eu hunain trwy'r Gymraeg. Roedd Cwis Dim Clem unwaith eto'n weithgaredd poblogaidd, gydag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg y sir yn cymryd rhan a channoedd o ddisgyblion yn cystadlu.

Dathlu'r Gymraeg gyda'n gilydd

Uchafbwynt arbennig y flwyddyn oedd dathliadau Dydd Gŵyl Dewi gyda'r orymdaith flynyddol a chystadleuaeth addurno ffenestri trefi Sir Ddinbych. Digwyddodd yr orymdaith yn nhref farchnad Dinbych, a daeth â dros 700 o blant o 15 ysgol ynghyd i ddathlu'r Gymraeg. Roedd yr awyrgylch yn fywiog a chadarnhaol, gan ddangos cryfder y Gymraeg ymhlith y genhedlaeth nesaf a'i lle canolog ym mywyd ysgolion a chymunedau'r sir.



What have we achieved?

Culture, music and competition

The year was full of creative and cultural activity. From a Halloween skull design competition to a songwriting workshop for Welsh Language Music Day, children and young people had opportunities to express themselves through the medium of Welsh. The 'Dim Clem' quiz was once again a popular event, with the county's Welsh medium primary schools taking part and hundreds of pupils competing.

Celebrating the Welsh language

A special highlight of the year was St David's Day celebrations with the annual procession and window decorated competition. The parade in the market town of Denbigh brought together over 700 children from 15 schools to celebrate the Welsh language. The atmosphere was lively and positive, demonstrating the strength of the Welsh language among the next generation and its central role in the life of the county's schools and communities.

Edrych 'mlaen!

Drwy gerddoriaeth, hanes, creadigrwydd a gweithgareddau cymdeithasol, llwyddwyd i greu cannoedd o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffyrdd hwyliog a pherthnasol i'r 21 ganrif. Yn bwysicaf oll, mae'r gweithgareddau hyn wedi helpu i feithrin hyder, datblygu sgiliau a chryfhau cysylltiad bobl ifanc â'r Gymraeg. Mae ymroddiad staff y Fenter a gwirfoddolwyr i'r gwaith hwn yn hollbwysig.











Looking ahead!

Through music, history, creativity, and social activities, hundreds of opportunities have been created for children and young people to use the Welsh language in ways that are light and relevant to the 21st century. Most importantly, these activities have helped to build confidence, develop skills, and strengthen the next generation's connection with the Welsh language. The dedication of the Menter's staff and volunteers to this work is crucial.

Cyfathrebu

Mae'r gwaith o ledaenu'r gair am y Gymraeg wrth galon ein gweithgareddau. Rydym yn codi proffil yn gyson am yr hyn rydym yn ei chynnig i'n cymunedau ac am fanteision y Gymraeg a dwyieithrwydd drwy'r wasg, cyfryngau cymdeithasol, yn uniongyrchol gydag unigolion a grwpiau a chyda'r busnesau o fewn y sir.

Eleni, aethom ati i greu Newyddlen newydd sbon i ddilynwyr a phartneriaid y Fenter ac mae hefyd ar gael i'r cyhoedd ei fwynhau trwy ein gwefan. Mae'n rhannu newyddion am ein gwaith a'n gweithgareddau ac yn hyrwyddo digwyddiadau'r tymor sydd i ddod. Caiff ei gyhoeddi bob tymor.


MENTER IAITH SIR DDINBYCH

RHIFYN #2

BWLETIN GWANWYN '26

Croeso i rifyn y gwanwyn o newyddlen Menter Iaith Sir Ddinbych

Gyda'r tywydd braf ar droed, mae tymor y gwanwyn wedi cyrraedd o'r diwedd. Bu dechrau prysur i'r tymor wrth ddathlu dydd Gŵyl Dewi ac addurno ffenestri busnesau trefi ein sir. Mae llawer o weithgareddau cyffrous wedi'u cynnal yn ystod y chwarter hwn felly ewch i ferwi'r tegell a mwynhewch flas ar y darllen.

Cynnwys

1. Uchafbwyntiau Cerddorol
2. Plant, Pobl ifanc a Theuluoedd
3. Sesiynau'r Dysgwyr
4. Hyrwyddo Digwyddiadau'r Gwanwyn
5. Y Fenter a Gwirfoddolwyr
6. Cysylltu â ni

Menter Iaith Sir Ddinbych

1

Dros y flwyddyn gwnaethom gyhoeddi:

- bron i 400 o negeseuon i'n 2800 o ddilynwyr Facebook
- dros 70 o bostiadau i'r dros 1000 o ddilynwyr Instagram
- dros 1000 o bobl wedi defnyddio ein cyfrif YouTube

Mae dros 150 o straeon wedi eu cyhoeddi ar ein tudalen Gymraeg wythnosol yn y Denbighshire Free Press, diolch i wirfoddolwr brwd ac mae ein herthyglau yn y papurau bro yn parhau i'n cynorthwyo i gyrraedd cynulleidfa Gymraeg. Mae hyn ar ben y cyfweliadau a'r straeon gaiff eu darlledu a'u cyhoeddi yn y wasg, o dro i dro.



Communications


Communicating the general message about the benefits of the Welsh language is at the heart of our activities. We are constantly raising the profile of what we offer to our communities and the benefits the Welsh language and bilingualism has on people's outlook through the press, social media, directly with individuals and groups plus with the county's business community.

This year, we launched a brand-new newsletter for our followers and partners; it is also available for the public to enjoy via our website. It shares news about our work and activities and promotes events coming up. It is published every season.

During the year we published:

- almost 400 messages to our 2800 Facebook followers
- almost 70 posts to over 1000 Instagram followers
- over 1000 people have used our YouTube account

Over 150 stories have been published on our weekly Welsh page in the Denbighshire Free Press, thanks to an enthusiastic volunteer and our articles in the local Welsh language community papers continue to help us reach a Welsh audience. This is on top of the interviews and stories that are broadcast and published in the press, on occasions.



Gwirfoddolwyr

Mae gwaith y Fenter yn waith tîm ac rydym yn ymfalchïo yn y gwirfoddolwyr sy'n dod draw atom. Maent yn ychwanegu sgiliau, profiad a gwerth i'n gwasanaethau Cymraeg o fewn ein cymunedau. Diolch o galon iddynt. Mae cyfleoedd hefyd yn codi i gynnig profiadau gwaith gwahanol i bobl ifanc. Trwy gydweithio â Phrifysgol Bangor eto eleni, bu cyfle i unigolyn ddod atom am wythnos o brofiad gwaith. Braf yw gallu cydweithio.

Volunteers

The work of Menter Iaith is a team effort, and we take great pride in the volunteers who come to support us. They bring skills, experience, and added value to our Welsh-language services within our communities. We offer them our heartfelt gratitude.
Opportunities also arise to offer diverse work experience to young people. Through collaborating with Bangor University again this year, an individual had the opportunity to join us for a week of work experience. It is wonderful to be able to collaborate in this way.

Ar y gweill 26-27

Pontio cenedlaethau gyda Disgos Distaw

Diolch i nawdd gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych byddwn yn datblygu rhaglen o weithgareddau i bontio pobl hŷn a phobl sy'n byw gyda dementia gyda phlant. Enw'r cynllun fydd 'Curiadau Cudd' lle byddwn yn trefnu sesiynau hwyliog a cherddoriaeth Cymraeg gan greu cyfleoedd i mwy o drigolion cartrefi gofal wneud defnydd o'u Cymraeg. Byddant yn mwynhau cymdeithasu, tra'n datblygu sgiliau ac ymwybyddiaeth plant a gofalwyr am bwysigrwydd mamiaith wrth ddarparu gofal i bobl hŷn.

Cydweithio hefo prosiectau

Trwy prosiectau a ariennir gan ffermydd wynt Clocaenog, Brenig, Gwynt y Môr a Gwastadeddau'r Rhyl rydym yn anelu i sefydlu pwyllgorau newydd o wirfoddolwyr yn ardaloedd y Rhyl a Henllan/Dinbych Uchaf. Byddwn yn parhau i gefnogi a datblygu'r pwyllgorau gwirfoddol sydd eisoes yn cydweithio gyda ni ym Mhrestatyn, Rhuddlan, Dyserth, Nantglyn, Rhuthun, Dinbych a Chorwen. Un enghraifft o brosiect tair blynedd sydd ar gychwyn yw dathlu geni 200 mlwyddiant Isaac Roberts, y seryddwr byd enwog lleol. Byddwn yn cydweithio gyda chymunedau Dinbych a'r cyffiniau.



Llywodraeth newydd

Ers Mai 2026, mae Llywodraeth newydd wedi ei phenodi i Senedd Cymru. Gyda pharatodau ar gyfer Etholiad Cyngor Sir Ddinbych ym mis Mai 2027, bydd gwaith ar droed i barhau i gyfathrebu gyda chynghorwyr a swyddogion sirol gan geisio dylanwadu ar bolisïau sy'n uchafu sylw i'r Gymraeg a hyrwyddo dwyieithrwydd. Bydd ein gwaith yn parhau i ddehongli a dadansoddi'r darlun sirol am sefyllfa'r Gymraeg trwy ddata fel y Cyfrifiad a'r Arolwg Blynyddol.

Cysylltu â ni

Menter Iaith Sir Ddinbych
Y Farchnad Fenyn,
Llain y Capel, Dinbych LL16 3TU

menter@misirddinbych.cymru
(01745) 812822
www.misirddinbych.cymru

Menter Iaith Sir Ddinbych
@menteriaith_sirddinbych
menteriaith_sirddinbych
@MIDinbych

Coming up in 26-27

Intergenerational Silent Discos

Thanks to funding from Denbighshire Voluntary Services Council, we will develop a programme of activities to connect older people and those living with dementia with children. The project named 'Curiadau Cudd' involve organising silent disco sessions featuring Welsh-language music, creating opportunities for more care home residents to use their Welsh. Participants will enjoy socialising, while the initiative develops the skills and awareness of children and carers regarding the importance of using Welsh when providing care for older people.

Project collaboration

Due to projects funded by the Clocaenog, Brenig, Gwynt y Môr, and Rhyl Flats wind farms, we aim to establish new volunteer committees in the Rhyl and Henllan/Upper Denbigh areas. We will continue to support and develop the volunteer committees already working with us in Prestatyn, Rhuddlan, Dyserth, Nantglyn, Ruthin, Denbigh, and Corwen. One example of a three-year project that is due to start is the celebration of the bicentenary of Isaac Roberts, the world-famous local astronomer. We will be working in partnership with the communities of Denbigh and the surrounding areas.

New Welsh Government

Since May 2026, a new Welsh Government has been appointed to the Senedd. With preparations underway for the Denbighshire County Council election in May 2027, work will continue to engage with county councillors and officers, seeking to influence policies that maximise Welsh language and promote bilingualism. Our work will continue to interpret and analyse the county wide situation around Welsh language opportunities, using data such as the Census and the national Annual Survey.

Diolch

I'n harianwyr a'n partneriaid.

I'r holl wirfoddolwyr sydd wedi rhoi o'u hamser yn ystod y flwyddyn. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr.

A huge thank you goes to our funders and partners.

And another diolch to all the volunteers for giving their time to support our work during the year.